**CYNGOR CYMUNED LLANFROTHEN**
**COFNODION CYFARFOD 12 MAI 2025**
19.00 yn Y Ganolfan, Llanfrothen

## 1. Presennol

Cenwyn ap Tomos, Glyn Griffiths, Beti Williams, Sian Cwper

**Clerc:** Huw Rowlands

**Cadeirio:** Nia Povey

## 2. Ymddiheuriadau

June Jones

## 3. Datgan Diddordeb/Buddiant Personol

Datganodd y Cynghorydd Nia Povey fuddiant oedd yn rhagfarnu yn eitem 9, cais cynllunio C25/0339/05/TR Capel Siloam, Rhyd - gwaith uwchraddio llinell drydan, gan ei bod hi'n rhentu'r darn tir dan sylw i'r ymgeisydd.

Gadawodd y cyfarfod ac ni chymerodd ran yn y drafodaeth.

## 4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod 10 Mawrth 2025.

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 10 Mawrth 2025.

**Cynnig:** Glyn Griffiths

**Eilio:** Cenwyn ap Tomos

## 5. Cyflwyniad ar Ynni Lleol, Dafydd Watts

Cafwyd cyflwyniad gan Dafydd Watts ar y buddion o ynni cymunedol, sef cael cymunedau i gymryd rheolaeth dros eu defnydd o egni. Un agwedd yw medru defnyddio egni sydd yn cael ei gynhyrchu yn lleol er budd y cymunedau lleol yn gyntaf, cyn ei fod yn mynd i'r Grid Cenedlaethol.

Gobeithir gwahodd cynrychiolwyr o fentrau sydd wrthi'n gweithredu ynni cymunedol yn llwyddiannus ar hyn o bryd i'r cyfarfod nesaf, megis Ynni Ogwen.

## 6. Diweddariad gan Fenter Y Ring, Dafydd Emlyn

Cafwyd diweddariad gan Dafydd Emlyn ar Fenter Y Ring. Mae llawer o waith wedi bod yn mynd ymlaen i glirio a thacluso tu mewn yr adeilad. Gobeithir hysbysebu am denant yn fuan.

## 6. Materion yn codi o'r Cofnodion

## 6.1 Y Ganolfan

Cytunwyd ei bod hi’n synhwyrol trafod dyfodol Y Ganolfan yn y cyfarfod nesaf, gan fod ei defnydd yn isel.

## 6.2 Goryrru Llanfrothen a Gosod Cyflymder 20 m.y.a.

Bu swyddog o’r Heddlu yn ymweld â Garreg unwaith eto dros fisoedd Mawrth ac Ebrill. Ni ddaliwyd neb yn goryrru. Mae’n bosibl fod gyrwyr yn arafu erbyn gweld cerbyd yr Heddlu.

Serch hynny, mae pryderon cymunedol am oryrru drwy Garreg yn parhau. Nid yw’n ymddengys fod y marciau gwyn a osodwyd ar ochr y ffordd rai misoedd yn ôl wedi cael unrhyw effaith.

Trafodwyd nifer o ddatrysiadau posibl gan gynnwys gosod dymi yn gwisgo siaced lachar ynghanol y pentref, gosod twmpathau, gosod camerâu cyflymder gosod arwyddion yn fflachio 20 m.y.a. ac ati.

Cytunwyd i holi Cyngor Gwynedd beth fyddai’n bosibl.

## 6.3 Mynwent Tan Lan

Cafwyd cwyn fod y mochyn daear wedi bod yno eto yn tyrchu tywarchen ffres unwaith eto.

Fodd bynnag, does dim ôl fod y mochyn daear wedi bod yn tyrchu yn y fynwent yn ddiweddar.

Cafwyd trafodaeth ar osod teclyn sonar er mwyn rhwystro moch daear rhag ceisio mynediad i’r fynwent, ond y ddealltwriaeth yw nad yw teclynnau o’r fath yn effeithiol, yn enwedig mewn llefydd agored fel mynwent Tan Lan.

Trefnwyd i gau’r blychau yn y ffens, ond ni fydd hyn o anghenraid yn sicrhau 1005 na all moch daear gael mynediad.

Mae 5 carreg fedd wedi cael eu rhoi ar wastad ym mynwent Tan Lan, oherwydd eu bod yn anniogel. Gofynnwyd i gwmni lleol a, bris o’u gosod yn eu hôl yn ddiogel.

## 6.4 13 Garreg Frech

Yn dilyn llawer o ohebiaeth bellach, cafwyd ymateb i gwestiynau pellach y cyngor cymuned gan Bennaeth Tai ac Eiddo Cyngor Gwynedd. Mae’r ymateb i bob pwrpas yn cadarnhau nad yw Adran Tai ac Eiddo Cyngor Gwynedd am gymryd unrhyw gamau pellach ar y mater.

Unwaith eto, parheir i ddisgwyl ymateb a diweddariad gan Adran Gyllid Cyngor Gwynedd ar eu bwriad i gymryd camau i gychwyn gweithgareddau cyfreithiol a chael gorchymyn arwystl ar yr eiddo.

Cafwyd mwy o gwynion gan drigolion lleol am gyflwr 13 Garreg Frech.

Trafodwyd cyfeirio'r mater at Ombwdsmon Cymru, ond all cynghorau cymuned ddim gwneud cwyn i Ombwdsmon Cymru.  Rhaid i unigolion wneud hyn.

Cytunodd y Clerc i edrych ar y broses o wneud cwyn i Ombwdsmon Cymru, ac i roi diweddariad ar y gohebu bu rhwng y cyngor cymuned a Chyngor Gwynedd i unrhyw drigolyn lleol oedd am wneud cwyn i Ombwdsmon Cymru.

**6.5 Cysgodfan Fysiau Llanfrothen**

Mae Cronfa Cymunedau Eryri yn agor ar 14 Mai ac yn cau ar 1 Awst. Bydd y panel yn cyfarfod i ddyfarnu'r grantiau yn fuan yn ystod Medi 2025.

**6.6 Llwybr Llanfrothen i Benrhyndeudraeth**

Deallir fod Cyngor Tref Penrhyndeudraeth wedi bod yn trafod y mater yn ddiweddar.  Mae angen cynnal trafodaeth efo nhw cyn mynd â'r mater ymhellach.

**6.7 Casglu Arian Diffribliwyr**

Bu'r Cynghorydd Glyn Griffiths yn gwagio'r blwch casglu arian ym maes parcio Croesor.  Casglwyd swm sylweddol ers ei wagio diwethaf.

**6.8 Arwydd Pont Traeth**

Cytunwyd i ofyn i Gyngor Gwynedd osod arwydd ar y bont dros yr afon Glaslyn yn dweud Pont Traeth - Afon Glaslyn.

Bydd Cyngor Dolbenmaen yn gofyn i Gyngor Gwynedd osod arwydd yr un fath ar eu hochr hwy o'r ffordd.  Bydd yn rhaid i'r cynghorau cymuned dalu am gost yr arwydd.

**6.9 Enwau Llefydd Lleol**

Cytunwyd fod yr arwydd Garreg Llanfrothen ar y ffyrdd i mewn i bentref Garreg yn gamarweiniol, gan eu bod yn gwneud i bobl arddel yr enw Llanfrothen yn hytrach na Garreg.

Fodd bynnag, ystyriwyd nad oedd hi'n gost effeithiol i osod arwyddion newydd yn lle'r rhai presennol.

7. **Materion Ariannol**

**7.1** Cyflog Clerc Mawrth 2025 £541.60 + ad-daliad cynnydd cyflog fel y dyfarnwyd gan Gytundeb Tâl Llywodraeth Leol i Ebrill 2024 £221.76

Yswiriant Cenedlaethol £0.76

**7.2** Cyflog Clerc Ebrill 2025 £541.60

Yswiriant Cenedlaethol £18.69

**7.3** Costau banc hyd at 27 Mawrth 2025 £8.00

Costau banc hyd at 27 Ebrill 2025 £8.00

**7.4** yu Energy10 Mawrth - £16.92

yu Energy 8 Ebrill - £28.01

**7.5** Derbyn taliad SumUp i'r banc 7 Mawrth 2025 - £4.00

**7.6** Derbyn taliad SumUp i'r banc 10 Mawrth 2025 - £17.50

**7.7** Derbyn taliad SumUp i'r banc 11 Mawrth 2025 - £5.00

**7.8** Derbyn taliad SumUp i'r banc 17 Mawrth 2025 - £3.00

**7.9** Derbyn taliad SumUp i'r banc 21 Mawrth 2025 - £3.00

**7.10** Derbyn taliad SumUp i'r banc 24 Mawrth 2025 - £19.00

**7.11** Derbyn taliad SumUp i'r banc 27 Mawrth 2025 - £5.00

**7.12** Derbyn taliad SumUp i'r banc 4 Ebrill 2025 - £4.00

**7.13** Derbyn taliad SumUp i'r banc 7 Ebrill 2025 - £18.00

**7.14** Derbyn taliad SumUp i'r banc 11 Ebrill 2025 - £8.00

**7.15** Derbyn taliad SumUp i'r banc 14 Ebrill 2025 - £19.00

**7.16** Derbyn taliad SumUp i'r banc 16 Ebrill 2025 - £12.00

**7.17** Derbyn taliad SumUp i'r banc 22 Ebrill 2025 - £30.00

**7.18** Derbyn taliad SumUp i'r banc 23 Ebrill 2025 - £2.00

**7.19** Derbyn taliad SumUp i'r banc 25 Ebrill 2025 - £2.00

**7.20** Derbyn taliad SumUp i'r banc 28 Ebrill 2025 - £14.50

**7.21** Dunn & Ellis Anfoneb Cyflogres am y cyfnod yn dod i ben Mawrth 31.02.2025. £65.70

**7.22** Anfoneb Michael Kerr, agor bedd ym mynwent Tan Lan - £450.00

**7.23** Tâl Aelodaeth Un Llais Cymru 2025/26 - £104.00

**7.24** Ad-dalu'r Clerc Toner Argraffydd, Cartridge Save 12 Mawrth 2025 - £66.85

**7.25** Derbyn ad-daliad TAW 22 Ebrill, £1,060.87

**7.26** Derbyn taliad cyntaf praesept 2025/2026, £6,400

**7.27** Derbyn tâl claddedigaeth Pritchard & Griffiths £2,200

**7.28** Balans yn y prif gyfrif 6 Mai 2025 £10,744.93

**7.29** Balans yn y cyfrif cadw 6 Mai 2025 £33,431.71

## 8. Gohebiaeth

- Llythyr diolch gan Siân Gwenllïan A.S. am gefnogaeth i'r ymgyrch ar gyfer Ysgol Ddeintyddol ym Mangor
- Gwahoddiad i dderbyniad yn Eisteddfod Dur a Môr er mwyn diolch am gyfrannid ariannol y cyngor cymuned i Gronfa Urdd i Bawb.
- Adolygiad Cymunedol Cyngor Gwynedd

Derbyniwyd er gwybodaeth.

## 9. Cynllunio

Cais Cynllunio C25/0339/05/TR Capel Siloam, Rhyd, gwaith uwchraddio llinell drydan uwchben bresennol o gam sengl i dri cham drwy osod dargludydd ychwanegol ar bolion presennol.

Dim gwrthwynebiad.

## 10. Materion Eraill

### 10.1 Derbyn/Gwrthod Tâl 2025/26

Eglurwyd y gall aelodau unigol hawlio hyd at £208 y flwyddyn fel cydnabyddiaeth am eu gwaith fel aelod o'r cyngor cymuned. Os derbynnir unrhyw dâl, yna byddai'n rhaid ad-dalu pro rata os bydd aelod yn gadael yn ystod y flwyddyn.

Yr aelod unigol sydd hefyd yn gyfrifol am unrhyw atebolrwydd treth.

Cytunwyd i beidio â dyfarnu unrhyw daliadau ychwanegol i unrhyw aelod am ddyletswyddau ychwanegol.

### 10.2 Plas Tan y Bwlch

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi tynnu Plas Tan y Bwlch oddi ar y farchnad. Maent yn bwriadu cyflwyno cais i Gronfa Dreftadaeth y

Loteri Genedlaethol ar gyfer grant datblygu er mwyn llunio cynlluniau ar gyfer dyfodol y Plas, all olygu y bydd pencadlys y Parc yn cael ei leoli yna.

Mae'r Parc am fynychu cyfarfodydd cynghorau cymuned yn y dyfodol er mwyn rhoi mwy o wybodaeth.  Cytunwyd I wahodd cynrychiolydd i gyfarfod mis Medi.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf – 30 Mehefin 2025 am 7 yr hwyr**